Asiantaeth Sicrhau Ansawdd

Mae'r dull adolygu hwn yn cydymffurfio â'r ESG

# Adolygiad Gwella Ansawdd

Prifysgol Abertawe

**Adroddiad yr Adolygiad**

Mai 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg

# Cynnwys


**Y dull Adolygiad Gwella Ansawdd .... 1**

Yr adolygiad hwn .... 1

**Yr adroddiad hwn .... 1**

**1. Gwybodaeth gyd-destunol am y darparwr, poblogaeth y myfyrwyr a'r adolygiad .... 2**

Gwybodaeth gryno am y darparwr, megis fframwaith strategol a strwythur cyfundrefnol .... 2

Cyfansoddiad poblogaeth y myfyrwyr, a thueddiadau allweddol a newidiadau a ddisgwylir o fewn y boblogaeth honno, gan gynnwys gwybodaeth am gadwraeth, cynnydd a chanlyniadau .... 2

Sylwadau ar y ffordd y mae'r darparwr yn cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol .... 3

Sylwadau ar y gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad, yn cynnwys y ffordd y mae'r darparwr a'i fyfyrwyr wedi cydweithio mewn partneriaeth i baratoi ar gyfer yr adolygiad .... 3

Crynodeb o natur a rhesymeg y blaenoriaethau gwelliant a nodwyd ar gyfer yr adolygiad ac yn yr hunan-ddadansoddiad .... 3

Crynodeb o'r camau dilyniant a gymerwyd gan y darparwr yn dilyn yr adolygiad blaenorol .... 4

**2. Beirniadaethau a chanfyddiadau'r adolygiad .... 5**

Y canmoliaethau .... 5

Yr argymhellion .... 5

Meysydd sydd o dan ddatblygiad parhaus .... 5

**3. Datganiad am ddull strategol y darparwr o sicrhau gwelliant .... 6**

Sylwadau am y dull strategol a ddefnyddir i gynllunio gwelliannau ym mhrofiad y myfyrwyr .... 7

Sylwadau ar y camau a gymerir i sicrhau bod y blaenoriaethau gwelliant yn cael eu gweithredu'n effeithiol .... 8

Sylwadau am y broses o werthuso canlyniadau'r blaenoriaethau gwelliant, ac o adrodd amdanynt, a'r ffordd y mae hyn yn hysbysu datblygiadau a gweithgareddau gwella yn y dyfodol .... 9

**4. Sylwadau ar y ffordd y mae'r darparwr yn cefnogi ac yn gwella profiad dysgu ei fyfyrwyr .... 11**

Y defnydd a wneir o bwyntiau cyfeirio allanol i gefnogi a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr .... 11

Sylwadau ac adborth gan y myfyrwyr .... 11

Datblygiadau i wella'r dysgu a'r addysgu a drefnir mewn partneriaeth â'r myfyrwyr .... 12

Effeithiolrwydd y strategaeth addysgu a dysgu o ran gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu .... 12

Gwerthusiad o ba mor effeithiol yw'r mentrau i wella'r dysgu a'r addysgu ............ 13

Y cymorth academaidd a bugeiliol a'r cymorth dysgu sydd ar gael i'r myfyrwyr ............ 14

Y ffordd y mae'r staff yn cael eu penodi a'u hyfforddi a'r cyfleoedd datblygu sydd ar gael iddynt ............ 15

Y ffordd y mae arferion da'n cael eu lledaenu ............ 15

Crynodeb o'r trefniadau i gefnogi a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr ............ 16

**5. Prosesau yn ymwneud ag ansawdd a safonau academaidd ............ 17**

Y datblygiadau a gafwyd yn y dulliau y mae'r darparwr yn eu defnyddio i reoli ansawdd a safonau ei ddarpariaeth ............ 17

Y defnydd a wneir o brosesau ansawdd i gadarnhau bod y darparwr yn parhau i reoli safonau ei ddarpariaeth yn effeithiol ............ 18

Y defnydd a wneir o brosesau ansawdd i gadarnhau bod y darparwr yn parhau i reoli ansawdd ei ddarpariaeth yn effeithiol ............ 18

Y ffordd y mae prosesau ansawdd y darparwr yn cyfrannu at sicrhau bod profiad dysgu ei fyfyrwyr yn cael ei wella a'i gyfoethogi ............ 19

Crynodeb sy'n dangos effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau academaidd ............ 19

**6. Darpariaeth gydweithredol ............ 20**

Gwybodaeth am faint a natur y ddarpariaeth gydweithredol (gan gynnwys darpariaeth dysgu seiliedig ar waith) ac unrhyw gynlluniau i'w newid ............ 20

Y datblygiadau a gafwyd yn y dulliau y mae'r darparwr yn eu defnyddio i reoli ansawdd a safonau ............ 20

Y defnydd a wneir o brosesau ansawdd i gadarnhau bod y darparwr yn parhau i reoli ei ddarpariaeth gydweithredol yn effeithiol ............ 21

Crynodeb sy'n dangos effeithiolrwydd y dull o reoli'r ddarpariaeth gydweithredol gan gynnwys y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academaidd a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr ............ 22

# Y dull Adolygiad Gwella Ansawdd

Mae gwefan QAA yn esbonio sut y gwneir yr Adolygiad Gwella Ansawdd (Adolygiad GA) ac mae ganddi ddolenni at y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad GA a dogfennau defnyddiol eraill.[1] Mae rhagor o wybodaeth ar gael hefyd am yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA).[2]

## Yr adolygiad hwn

Dyma Adroddiad yr Adolygiad GA a weithredwyd gan QAA ym Mhrifysgol Abertawe ('y Brifysgol'). Cynhaliwyd yr ymweliad adolygu rhwng 12 a 14 Mai 2026 a chafodd ei weithredu gan dîm o bedwar adolygwr:

- Yr Athro Alan Howard
- Yr Athro Kathryn Thirlaway
- Ms Hayley Burns
- Ms Nida Ambreen (adolygwr sy'n fyfyriwr).

Mae adolygiadau QAA yn brosesau sy'n cael eu gweithredu ar sail tystiolaeth. Mae beirniadaethau'r adolygiadau'n codi o'r dogfennau y mae'r timau adolygu'n eu gweld, y cyfarfodydd y maent yn eu cynnal, a'r profiad a gânt fel adolygwyr sy'n gymheiriaid neu'n fyfyrwyr. Cyn yr ymweliadau adolygu, cyflwynodd y darparwr ddogfen hunanwerthuso (yr Hunan-ddadansoddiad), gwybodaeth gyd-destunol am natur ei ddarpariaeth a phoblogaeth ei fyfyrwyr, ac ystod o ddeunyddiau am drefniadau'r darparwr i reoli safonau academaidd ac ansawdd.

Yn yr adolygiad hwn, mae tîm yr Adolygiad GA yn rhoi eu beirniadaeth mewn perthynas â:

- gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol
- gofynion sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Mae'n bosibl i'r beirniadaethau gael eu mynegi ar dair lefel sy'n nodi a yw'r darparwr 'yn bodloni'r gofynion' hyn, 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau', neu 'ddim yn bodloni'r gofynion'. Mae rhagor o fanylion am y categorïau yma yn y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad GA.

Hefyd, mae'r Adolygiad GA yn rhoi datganiad am y dull strategol y mae'r darparwr yn ei ddefnyddio i wella profiad dysgu ei fyfyrwyr.

# Yr adroddiad hwn

Gallwch weld y beirniadaethau a roddwyd yn yr adolygiad hwn ar dudalen 5, ynghyd ag unrhyw ganmoliaethau, meysydd sydd o dan ddatblygiad parhaus ac argymhellion a nodwyd gan y tîm adolygu. Yn dilyn hyn mae canfyddiadau manwl yr adolygiad.

Mae'r adroddiadau hyn yn darparu sail gwybodaeth ar gyfer cynhyrchu adroddiadau thematig sy'n nodi canfyddiadau ar draws y darparwyr yng Nghymru.

---

[1] Rhagor o wybodaeth am yr Adolygiad GA: www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/y-mathau-o-adolygiad/adolygiad-gwella-ansawdd.

[2] Rhagor o wybodaeth am QAA: www.qaa.ac.uk/cy/amdanom-ni.

# 1. Gwybodaeth gyd-destunol am y darparwr, poblogaeth y myfyrwyr a'r adolygiad

## Gwybodaeth gryno am y darparwr, megis fframwaith strategol a strwythur cyfundrefnol

1 Sefydlwyd Prifysgol Abertawe ('y Brifysgol') yn 1920. Cyngor y Brifysgol sy'n gosod cyfeiriad strategol y Brifysgol, ac mae pum prif golofn sy'n ei danategu: 'Ein Cenhadaeth Ddinesig', 'Profiad ein Myfyrwyr', 'Ein Dysgu ac Addysgu', 'Ein Hymchwil' ac 'Ein Mentergarwch'. Mae'r Brifysgol yn sefydliad ymchwil-ddwys, a'i hamcan yw cydbwyso addysgu rhagorol ag ymchwil ac arloesi sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang. Mae'r sefydliad wrthi'n datblygu ei 'Weledigaeth ar gyfer 2030-35' newydd ar hyn o bryd.

2 Corff llywodraethu'r Brifysgol yw ei Chyngor. Awdurdod academaidd y Brifysgol yw ei Senedd, dan gadeiryddiaeth yr Is-Ganghellor. Cefnogir y ddau gorff i gyflawni eu cyfrifoldebau gan amrywiaeth o is-bwyllgorau. Gan yr Is-Ganghellor y mae'r cyfrifoldeb am reoli'r Brifysgol, a hynny gyda chefnogaeth yr uwch dîm rheoli. Ar lefel weithredol, cyfunwyd saith coleg cyfansoddol y Brifysgol yn dair Cyfadran yn 2021: Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol; y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd; a'r Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg. Mae gan bob un ohonynt strwythur cyffredin o ysgolion dan arweinyddiaeth Dirprwy Is-Ganghellor/ Deon Gweithredol. Ar sail gyfwerth ag amser llawn, mae'r Brifysgol yn cyflogi oddeutu 2,600 o aelodau staff academaidd a staff proffesiynol ar draws tri champws.

3 Ar hyn o bryd, mae gan y Brifysgol 26 o bartneriaethau sydd wrthi'n cyflenwi darpariaeth a addysgir. Mae naw o'r partneriaethau hyn, y mae wyth ohonynt dramor, yn cynnig dyfarniadau dwbl, dyfarniadau deuol neu ddyfarniadau ar y cyd mewn cydweithrediad â'r Brifysgol. Ymysg ei threfniadau cydweithio eraill mae'n darparu Prentisiaethau Gradd ar y cyd â dau goleg addysg bellach yng Nghymru, yn ogystal â darpariaeth ar fasnachfraint. Hefyd, mae gan y Brifysgol amrywiaeth eang o gytundebau trosglwyddo â sefydliadau tramor.

## Cyfansoddiad poblogaeth y myfyrwyr, a thueddiadau allweddol a newidiadau a ddisgwylir o fewn y boblogaeth honno, gan gynnwys gwybodaeth am gadwraeth, cynnydd a chanlyniadau

4 Ar sail gyfwerth ag amser llawn, roedd gan y Brifysgol 17,166 o fyfyrwyr cofrestredig yn 2024-25, sef 14,042 o fyfyrwyr israddedig, 2,442 o fyfyrwyr ôl-raddedig a addysgir a 682 o fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. Roedd hyn yn cynnwys 2,601 o fyfyrwyr rhyngwladol. Er bod cynnydd yn y nifer o fyfyrwyr ôl-raddedig a addysgir a gofrestrodd yn 2023-24, a chynnydd yn y nifer o fyfyrwyr blwyddyn sylfaen, mae cyfanswm y myfyrwyr wedi gostwng o oddeutu 8% dros y tair blynedd diwethaf.

5 Mae'r Brifysgol yn ceisio'n frwd i gynyddu ei darpariaeth gydweithredol, gan gynnwys ei phartneriaethau rhyngwladol. Yn 2024-25, bu 223 o fyfyrwyr yn astudio gyda phartneriaid cydweithredol yn y DU – bron i gyd wedi eu seilio yng Nghymru – a bu 727 o fyfyrwyr yn astudio gyda phartneriaid cydweithredol tramor.

6 Mae'r cyfraddau cadwraeth a chynnydd wedi gwella'n raddol eto ar ôl y pandemig COVID-19. Mae'r gyfradd gadwraeth wedi gwella, o 89.0% ar ei isaf yn 2021-22 i 93.4% yn 2024-25, ac mae cyfradd y cynnydd wedi codi o 76.7% i 87.7%.

## Sylwadau ar y ffordd y mae'r darparwr yn cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol

7 Mae'r Brifysgol yn ceisio cyfateb â'r blaenoriaethau cenedlaethol drwy lywodraethu, dylunio ei chwricwlwm, ymgysylltu â'r sector a sicrhau cynhwysiant. Esiampl o hyn yw cyfraniad y Brifysgol at Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru. Mae'r Brifysgol wedi ennill Gwobr Efydd y Siarter Cydraddoldeb Hiliol, wedi lansio Pwyllgor Ymgynghorol y Myfyrwyr ar Gynhwysiant Hil, ac wedi ymwreiddio dulliau cynhwysol o ddatblygu'r cwricwlwm yn yr ymarfer 'Trawsnewid y Cwricwlwm'.

8 Esiampl arall yw llwyddiant y Brifysgol i sicrhau statws 'Prifysgol Noddfa', yn unol â dyhead Llywodraeth Cymru i wneud Cymru'n Genedl Noddfa. Rhoddir statws 'Prifysgol Noddfa' i gydnabod sefydliadau sy'n cynnig cefnogaeth weithredol ac amgylchedd croesawus i ffoaduriaid a phobl eraill sy'n ceisio lloches. Yn rhan o'r fenter hon, mae partneriaeth y Brifysgol gyda Phrifysgol Genedlaethol Petro Mohyla'r Môr Du yn Wcráin wedi rhoi'r cyfle i 53 o fyfyrwyr o Wcráin ymweld â Phrifysgol Abertawe i astudio.

9 Mae portffolio a chwricwlwm y Brifysgol yn cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol o ran y gweithlu. Mae hyn yn cynnwys y sector addysg, lle mae'r Brifysgol yn cymryd rhan yn y rhaglen MA Cenedlaethol mewn Addysg (Cymru). Hefyd, mae'r Brifysgol yn cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol o ran iechyd drwy ei phortffolio addysg ac ymchwil, a thrwy dwf wedi'i dargedu mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y meysydd hyn er mwyn ateb y galw am sgiliau yn y wlad. Mae'r Brifysgol wedi cyhoeddi 'Strategaeth Iaith a Diwylliant Cymraeg' sy'n tanategu ei hymrwymiad i ehangu amrediad ei darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chynyddu nifer y myfyrwyr sy'n cofrestru i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, er mwyn cefnogi targed Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

## Sylwadau ar y gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad, yn cynnwys y ffordd y mae'r darparwr a'i fyfyrwyr wedi cydweithio mewn partneriaeth i baratoi ar gyfer yr adolygiad

10 Cychwynnodd y gwaith paratoi ar gyfer yr Adolygiad Gwella Ansawdd (Adolygiad GA) ym mis Ionawr 2025 gyda datblygu Cynllun Rheoli Prosiect Adolygiad GA 2026. Goruchwyliwyd y cynllun gan Fwrdd Prosiect yr Adolygiad GA, oedd yn cwrdd bob pythefnos, ac yn tynnu ynghyd aelodau o Undeb y Myfyrwyr, a chydweithwyr o'r staff proffesiynol ac academaidd a'r uwch dîm rheoli. Dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-Ganghellor Cynorthwyol (Ansawdd a Safonau Addysg), roedd y bwrdd yn adrodd i'r uwch dîm rheoli a thrwy'r strwythur pwyllgorau, yn cynnwys y Senedd, i'r Cyngor oedd â'r oruchwyliaeth dros y cyfan.

11 Cymerodd Undeb y Myfyrwyr ran yn y broses o baratoi ar gyfer yr Adolygiad GA mewn cydweithrediad â'r Brifysgol o'r cychwyn un, gan gynnwys bod yn aelodau o Fwrdd Prosiect yr Adolygiad GA. Cytunodd Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol i integreiddio eu cyflwyniadau a'u cyflwyno ar y cyd fel un Hunan-ddadansoddiad cyfunol. Gyda chefnogaeth ymgynghorwyr o Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, bu Undeb y Myfyrwyr yn helpu i gasglu mewnbwn ehangach gan y myfyrwyr, ac arweiniodd grŵp ysgrifennu'r Hunan-ddadansoddiad i'r Adolygiad GA oedd yn ystyried fersiynau drafft o'r ddogfen Hunan-ddadansoddiad.

## Crynodeb o natur a rhesymeg y blaenoriaethau gwelliant a nodwyd ar gyfer yr adolygiad ac yn yr hunan-ddadansoddiad

12 Mae'r Brifysgol wedi dewis tri maes i ganolbwyntio arnynt er mwyn esbonio ei dull strategol o sicrhau gwelliant, fel a ganlyn: sicrhau gwelliant drwy ddefnyddio data; sicrhau gwelliant drwy ddatblygu'r cwricwlwm; a sicrhau gwelliant drwy ddylunio'r strwythur rheoli ansawdd. Dewiswyd y blaenoriaethau hyn i esbonio diwylliant y Brifysgol o sicrhau gwelliant parhaus ar sail tystiolaeth.

13 Yn dilyn trafodaeth, nododd y Brifysgol y tair blaenoriaeth gwelliant a ganlyn, er mwyn dangos ei dulliau o gynllunio, gweithredu a gwerthuso mentrau gwella. Mae'r blaenoriaethau hyn wedi eu hadolygu'n fanwl yn Adran 3 yr adroddiad.

- **Blaenoriaeth 1: Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol**
  Menter sydd wrthi'n cael ei chynllunio.

- **Blaenoriaeth 2: Trawsnewid y cwricwlwm**
  Menter sydd wrthi'n cael ei gweithredu.

- **Blaenoriaeth 3: Cadwraeth a chynnydd y myfyrwyr**
  Menter sydd wrthi'n cael ei gwerthuso.

## Crynodeb o'r camau dilyniant a gymerwyd gan y darparwr yn dilyn yr adolygiad blaenorol

14 Derbyniodd y Brifysgol ganlyniad cadarnhaol o'r Adolygiad GA diweddaraf a gafwyd yn 2020, oedd yn nodi pum canmoliaeth, a thri chadarnhad, ac ni roddwyd unrhyw argymhellion. Mewn ymateb i'r cadarnhadau a gafwyd, lluniodd y Brifysgol gynllun gweithredu ôl-adolygiad.

15 Mae'r camau gweithredu a gwblhawyd yn cynnwys ymwreiddio elfennau arsylwi gan gymheiriaid yn y cymhwyster PGCert i aelodau newydd o staff addysgu, ac yn y broses Adolygiad Datblygiad Proffesiynol i'r staff cyfredol, yn ogystal â lansio'r mentrau data 'FyMhresenoldeb' a 'Monitro Gwelliant Parhaus' sy'n cael eu disgrifio'n fwy manwl yn adrannau 3 a 4 yr adroddiad hwn.

16 Mewn ymateb i'r newidiadau ehangach a gafwyd yn y sector, yn cynnwys lansio Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU (2024) a'r canllawiau am addasiadau rhesymol gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, mae'r Brifysgol hefyd wedi diweddaru ei Chod Ymarfer Dysgu, Addysgu ac Asesu a'i Pholisi Addasiadau Rhesymol.

## 2. Beirniadaethau a chanfyddiadau'r adolygiad

Ar sail yr wybodaeth a gyflwynwyd, mae'r tîm adolygu'n barnu hyn:

- Mae Prifysgol Abertawe'n **bodloni** gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol.

- Mae Prifysgol Abertawe'n **bodloni** gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Mae hon yn feirniadaeth gadarnhaol, sy'n golygu bod gan y darparwr drefniadau cadarn i sicrhau safonau academaidd, i reoli ansawdd academaidd ac i wella ansawdd profiad ei fyfyrwyr.

### Y canmoliaethau

Nododd tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd dair canmoliaeth sydd wedi eu crynhoi isod.

- Y ffordd systematig y mae'r Brifysgol wedi gweithredu ei menter 'Trawsnewid y Cwricwlwm' drwy'r sefydliad cyfan, sydd wedi sefydlu fframwaith cydlynol wedi'i seilio ar dystiolaeth ar gyfer ail-ddylunio pob rhaglen a addysgir er mwyn gwella profiad dysgu cyfan y myfyrwyr.

- Y ffordd y mae staff gwasanaethau proffesiynol, staff academaidd a myfyrwyr y Brifysgol wedi gweithio mewn partneriaeth i wella profiad y myfyrwyr.

- Mentrau cyflogadwyedd y Brifysgol sy'n cyfrannu at wella parodrwydd gyrfaol ei myfyrwyr.

### Yr argymhellion

Mae tîm yr Adolygiad GA yn gwneud un argymhelliad.

- Adolygu canllawiau ac arferion y Brifysgol yn ymwneud ag amgylchiadau esgusodol, er mwyn dileu amwysedd a sicrhau mwy o eglurder a chysondeb i'w myfyrwyr i gyd.

### Meysydd sydd o dan ddatblygiad parhaus

Nododd tîm yr Adolygiad GA un maes sydd o dan ddatblygiad parhaus, sydd wedi ei grynhoi isod.

- Y camau sy'n cael eu cymryd i gryfhau cysondeb canllawiau ac arferion ynglŷn â beth yw defnydd derbyniol o DA cynhyrchiol mewn gwaith a asesir ar draws y Brifysgol.

## 3. Datganiad am ddull strategol y darparwr o sicrhau gwelliant

17 Archwiliodd y tîm adolygu ddulliau strategol y Brifysgol o sicrhau gwelliant yng nghyd-destun ei dull strategol trosfwaol. Nododd y tîm adolygu fod strategaeth addysg newydd ar fin cael ei chyhoeddi, a bod ei themâu a'i blaenoriaethau'n hysbysu datblygiadau sefydliadol yn barod. Mae'r strategaeth hon yn pwysleisio integreiddio dysgu ac addysgu gydag ymgysylltiad y myfyrwyr, ac ymrwymiad y Brifysgol i weithio mewn partneriaeth â'i myfyrwyr.

18 Nododd y Brifysgol dri maes penodol i ganolbwyntio arnynt yn yr Adolygiad GA hwn, fel a ganlyn:

- Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol
- Trawsnewid y cwricwlwm
- Cadwraeth a chynnydd y myfyrwyr

19 Dewiswyd blaenoriaethau gwelliant i ddangos dulliau'r Brifysgol o gynllunio, gweithredu a gwerthuso mentrau gwella. Mae'r blaenoriaethau'n adlewyrchu ymrwymiad y Brifysgol i sicrhau gwelliant parhaus sydd wedi ei alluogi gan y pethau hyn: sicrhau gwelliant drwy ddefnyddio data; sicrhau gwelliant drwy ddatblygu'r cwricwlwm; a sicrhau gwelliant drwy ddylunio'r strwythur rheoli ansawdd.

20 Gwelwyd tystiolaeth o waith gwella'r Brifysgol mewn astudiaethau achos, cyflwyniadau a dogfennau ategol a ddarparwyd. Roedd hyn yn cynnwys y Fframwaith Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol, Fframwaith 'Trawsnewid y Cwricwlwm' a throsolwg o waith y Gweithgor Cadwraeth a Chynnydd.

21 Yn ystod yr ymweliad adolygu, archwiliodd y tîm adolygu'r blaenoriaethau hyn yn fanwl drwy gynnal cyfarfodydd â'r staff uwch, y gwasanaethau proffesiynol, y staff academaidd, a'r myfyrwyr. Rhoddwyd cyflwyniad i'r tîm i ddarparu rhagor o wybodaeth iddo am sail resymegol a phrosesau cynllunio a gwerthuso mentrau gwella, yn ogystal â rôl y myfyrwyr fel partneriaid wrth siapio a hysbysu'r blaenoriaethau hyn.

22 Archwiliodd y tîm adolygu'r camau pwrpasol y mae'r sefydliad yn eu cymryd i wella profiad dysgu ei fyfyrwyr, drwy archwilio'r defnydd a wneir o dystiolaeth i gynllunio, gweithredu a gwerthuso profiad dysgu'r myfyrwyr. Yn rhan o'r adroddiad hwn, mae'r tîm adolygu'n rhoi sylwadau ar ei ganfyddiadau yn y tri maes hyn, yn yr adrannau isod.

23 O ganlyniad cyffredinol i'r dull adolygu i sicrhau gwelliant a gwaith y tîm adolygu o ystyried y blaenoriaethau gwelliant, rhoddir datganiad am ddull strategol y darparwr o wella profiad academaidd ei fyfyrwyr. Mae'r tîm adolygu'n rhoi'r datganiad a ganlyn am ddull strategol Prifysgol Abertawe o wella profiad academaidd ei myfyrwyr:

24 Mae dull strategol y Brifysgol o sicrhau gwelliant ar sail tystiolaeth wedi ei danategu gan bum blaenoriaeth sy'n ymwneud ag ymdeimlad o berthyn, cwricwlwm trawsnewidiol, dyfodol disglair, ysbrydoli pobl, a llais y myfyrwyr. Gweithredir y rhain yn hyblyg drwy brosesau cynllunio sefydliadol, gan alluogi ymatebolrwydd i ddangosyddion perfformiad mewnol a disgwyliadau allanol. Gyrrir y dull o sicrhau gwelliant gan gyfuniad cydberthynol o ddefnyddio data, prosesau sicrhau ansawdd a datblygiad y cwricwlwm, ac un o'r prif gryfderau yw'r cydweithrediad cryf rhwng y staff academaidd, staff y gwasanaethau proffesiynol a'r myfyrwyr.

25 Crëwyd y prosiect 'Trawsnewid y Cwricwlwm' mewn cydweithrediad â'r myfyrwyr a'r rhanddeiliaid allanol fel menter fawr i ail-ddylunio pob un o'r rhaglenni er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni meini prawf y fframwaith. Cefnogir y flaenoriaeth 'Dyfodol disglair' gan nifer o fentrau megis y Bwrdd Dyfodol Myfyrwyr, y broses o gyfuno'r gwasanaeth gyrfaoedd a'r gwasanaeth

cyflogadwyedd, a Strategaeth Cyflogadwyedd a Sgiliau newydd, er mwyn gwella mynediad cyfartal at gyfleoedd dysgu seiliedig ar waith.

26 Mae'r cynnydd yn cael ei fonitro drwy strwythur llywodraethu, dan arweinyddiaeth y Bwrdd Gwella Addysg ac o dan oruchwyliaeth Pwyllgor Addysg y Brifysgol, ac mae'n adrodd yn y pen draw i'r Senedd a'r Cyngor. Mae mewnbwn gweithredol gan Fforwm Ymgynghorol y Myfyrwyr a'r Grŵp Data a Pherfformiad Myfyrwyr yn sicrhau bod adborth gan y myfyrwyr a'u data'n hysbysu gwerthusiad yn uniongyrchol. Ar y cyfan, mae'r Brifysgol yn dangos dull cydlynol a chynhwysol o sicrhau gwelliant sy'n cael ei hysbysu gan ddata.

## Sylwadau am y dull strategol a ddefnyddir i gynllunio gwelliannau ym mhrofiad y myfyrwyr

27 Mae'r Brifysgol wedi dewis 'Deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol' fel un o'i blaenoriaethau gwelliant er mwyn dangos ei dull o gynllunio mentrau gwella. Clywodd y tîm adolygu fod y Brifysgol wedi mabwysiadu Fframwaith Deallusrwydd Artiffisial mewn ymateb i'r defnydd cynyddol o DA cynhyrchiol mewn addysg uwch a'i allu posibl i wella profiad y myfyrwyr. Roedd y fframwaith yn rhan o ddull strategol ehangach o drawsnewid y cwricwlwm a'r Polisi Asesu, Marcio ac Adborth.

28 Gwelwyd tystiolaeth yn ystod yr ymweliad adolygu oedd yn dangos bod y fframwaith wedi ei ddatblygu drwy broses gynllunio raddol ar lefel sefydliadol, yn hytrach nag mewn ffordd adweithiol. Esboniodd y staff uwch bod trafodaethau cynnar wedi canolbwyntio ar bryderon ynglŷn ag uniondeb academaidd, arferion asesu anghyson, mynediad cyfartal i offer DA, cynaliadwyedd, a'r newid technolegol cyflym, a bod y datganiad am DA cynhyrchiol a gyhoeddwyd gan y Grŵp Russell yn 2023 wedi bod yn ddefnyddiol o ran hysbysu eu dulliau. Mae'r Brifysgol wedi sefydlu egwyddorion a chanllawiau i'r sefydliad cyfan er mwyn osgoi rhwyg rhwng y dulliau a ddefnyddir yn y meysydd addysgu ac ymchwil a'r gwasanaethau proffesiynol. Nododd y tîm adolygu fod y fframwaith wedi'i lunio i ganiatáu hyblygrwydd i'r meysydd astudio unigol, gan hefyd gynnal dull sefydliadol cydlynol.

29 Cysylltwyd y fframwaith ag agenda 'Trawsnewid y Cwricwlwm' y Brifysgol. Tynnodd staff sylw at nod y fframwaith o gefnogi datblygiad llythrennedd DA, meddwl beirniadol, a sgiliau cyflogadwyedd y graddedigion, gan gydnabod bod cyflogwyr yn disgwyl fwy a mwy i raddedigion ddefnyddio DA mewn ffordd gyfrifol ac effeithiol. Roedd y Brifysgol hefyd yn ceisio mynd i'r afael â phryderon gan rai o'r cydweithwyr academaidd a'r myfyrwyr yn ymwneud ag anghydraddoldeb digidol a chynaliadwyedd trwy ddarparu mynediad at offer DA cynhyrchiol a gefnogir gan y sefydliad.

30 Yn ogystal, roedd cyfleoedd datblygiad staff sy'n ymwneud â defnyddio deallusrwydd artiffisial mewn addysg yn dangos bod datblygiad proffesiynol parhaus ar gael i helpu'r staff i ddatblygu sgiliau a hyder mewn defnyddio DA yn eu harferion dysgu ac addysgu. Roedd tystiolaeth hefyd i ddangos bod gan y sefydliad gynlluniau ehangach i gefnogi gweithrediad y fframwaith, yn cynnwys gweithgareddau ail-ddylunio cwricwla a chanllawiau am adolygu asesiadau. Hefyd, clywodd y tîm adolygu am gynlluniau i ymwreiddio llythrennedd DA yn y gwaith o ddatblygu sgiliau ehangach y myfyrwyr a'u paratoi ar gyfer swyddi i raddedigion.

31 Roedd tystiolaeth i ddangos partneriaeth gref gyda'r myfyrwyr mewn cynllunio a datblygu'r Fframwaith Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol. Roedd hyn yn cynnwys cynrychiolwyr Undeb y Myfyrwyr a Llysgenhadon Uniondeb Academaidd oedd yn cyfrannu at y gwaith hwn drwy gynnal gweithdai, gweithgorau, a gweithgareddau ymgynghori. Yn ystod yr ymweliad, dywedodd y myfyrwyr bod y fframwaith, ar y cyfan, yn gostwng dryswch ynglŷn â beth yw defnydd derbyniol o DA mewn asesiadau, a bod y raddfa 'DA mewn Asesiadau' yn darparu arweiniad clir. Roedd y myfyrwyr yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i drafod pryderon ynglŷn ag uniondeb academaidd, defnydd moesegol o DA, a disgwyliadau mewn perthynas ag asesiadau. Clywodd y tîm adolygu

gan y myfyrwyr fod y fframwaith yn arbennig o ddefnyddiol i leihau eu gorbryder ynglŷn â defnyddio DA mewn gwaith cwrs ac i'w helpu i ddeall y disgwyliadau yn y meysydd astudio unigol yn well. Fodd bynnag, clywodd y tîm adolygu bod rhai anghysonderau'n parhau o hyd ar draws adrannau, yn cynnwys y ddarpariaeth gydweithredol. Roedd y rhain yn cynnwys gwahaniaethau yn y ffordd y dehonglir canllawiau am ddefnyddio DA, y defnydd a wneir o systemau sgorau goleuadau traffig (coch/melyn/gwyrdd), datganiadau mewn perthynas ag asesiadau, a lefelau amrywiol o hyder y staff i gymhwyso'r fframwaith mewn arferion addysgu ac asesu. Nododd y tîm adolygu mai un **maes sydd o dan ddatblygiad parhaus** yw'r camau sy'n cael eu cymryd i gryfhau cysondeb canllawiau ac arferion ynglŷn â beth yw defnydd derbyniol o DA cynhyrchiol mewn gwaith a asesir ar draws y Brifysgol.

## Sylwadau ar y camau a gymerir i sicrhau bod y blaenoriaethau gwelliant yn cael eu gweithredu'n effeithiol

32 Mae'r Brifysgol wedi dewis 'Trawsnewid y cwricwlwm' fel un o'i blaenoriaethau gwelliant i ddangos ei dull o weithredu mentrau gwella. Mae'r tîm adolygu o'r farn bod prosiect 'Trawsnewid y Cwricwlwm' y Brifysgol yn fenter gwella sefydliadol sylweddol ar y cam hwn, sy'n codi o flaenoriaeth T1 'Cwricwlwm Trawsnewidiol' cynllun gweithredu'r Strategaeth Addysg newydd. Canfu'r tîm adolygu fod y fenter yn gyfrwng da i gyflawni dyhead y Brifysgol i ddarparu portffolio amrywiol ac addasadwy, darparu teithiau dysgu clir, cyson a chydlynol i'r myfyrwyr, a hybu dulliau addysgu ac asesu dynamig sy'n integreiddio technolegau digidol a dulliau addysgu sydd wrthi'n datblygu.

33 Yn rhan o'r prosiect 'Trawsnewid y Cwricwlwm', sefydlwyd fframwaith i'r sefydliad cyfan ar gyfer ail-ddylunio pob rhaglen a addysgir. Mae'r fframwaith yn cyfuno gofynion o ran strwythur y rhaglen, er enghraifft cyflwyno gofyniad bod gan bob modiwl 20 credyd o leiaf, lle bo'n briodol, gydag egwyddorion dylunio ehangach sy'n gofyn i bob rhaglen ymwreiddio priodoleddau graddedigion, cyflogadwyedd, cynhwysiant, cynaliadwyedd a DA cynhyrchiol. Clywodd y tîm adolygu fod y dull hwn wedi darparu sylfaen glir a chyson i dimau'r rhaglenni ail-ddylunio cwricwla, gan barhau i ganiatáu hyblygrwydd priodol i'r meysydd astudio unigol.

34 Canfu'r tîm adolygu fod y Brifysgol wedi gweithredu'r fenter mewn ffordd systematig ar draws y sefydliad cyfan. Erbyn hyn, mae pob un o'r rhaglenni a addysgir wedi eu hail-ddylunio a'u cymeradwyo fel rhai sy'n bodloni gofynion y Fframwaith 'Trawsnewid y Cwricwlwm'. Clywodd y tîm adolygu bod hyn wedi ei gyflawni drwy gydweithrediad agos rhwng y staff academaidd, staff y gwasanaethau proffesiynol, y myfyrwyr, cyflogwyr a chyrff proffesiynol, wedi ei gefnogi gan weithdai, pecynnau cymorth a chanllawiau wedi eu teilwra. Mae'r myfyrwyr wedi cyfranogi yn y gwaith o ddylunio rhaglenni a hefyd mewn rolau ffurfiol fel adolygwyr sy'n fyfyrwyr.

35 Hefyd, mae'r Brifysgol wedi sefydlu fframwaith cynhwysfawr ar gyfer gwerthuso llwyddiant y fenter. Mae mesuriadau'r broses yn dangos bod pob un o'r rhaglenni wedi eu cymeradwyo yn erbyn y fframwaith, a bod themâu allweddol, yn cynnwys cynaliadwyedd, cynhwysiant, priodoleddau graddedigion a DA cynhyrchiol, wedi eu hymwreiddio. Mae mesuriadau optimeiddio cynnar yn dangos gostyngiadau yn nifer y modiwlau a maint yr asesiadau, ac mae rhaglenni cam 1 yn dangos bod nifer eu modiwlau wedi gostwng o oddeutu 20%, a bod maint eu hasesiadau wedi gostwng o oddeutu 31%. Nod y newidiadau hyn yw rhoi strwythurau rhaglen mwy cydlynol a llwyth gwaith asesu mwy cytbwys i fyfyrwyr.

36 Nododd y tîm adolygu mai dim ond nifer fechan o raglenni sydd wedi eu lansio hyd yn hyn, ac mae'r mwyafrif yn mynd i ddechrau yn ystod blwyddyn academaidd 2026-27. O ganlyniad, er bod y cam gweithredu'n gyflawn i raddau mawr a bod y manteision cynnar yn amlwg, mae'r effaith lawn ar foddhad, cadwraeth a phrofiad ehangach y myfyrwyr a deilliannau'r graddedigion yn dal i ddod i'r golwg. Mae'r Brifysgol wedi nodi amserlenni clir ar gyfer gwerthuso'r newidiadau hyn ymhellach wrth i garfannau o fyfyrwyr symud drwy'r cwricwlwm wedi'i drawsnewid.

37 Ar y cyfan, mae'r tîm adolygu o'r farn bod 'Trawsnewid y Cwricwlwm' yn fenter gwella sy'n hynod effeithiol ac yn strategol bwysig. Mae'r Brifysgol wedi gweithredu'r fenter mewn ffordd systematig ar draws ei holl ddarpariaeth a addysgir, wedi ei gefnogi gan arweinyddiaeth sefydliadol gref, gwaith partneriaeth helaeth yn cynnwys gyda chyflogwyr a chyrff proffesiynol, a fframwaith datblygedig ar gyfer gwerthuso effaith dros amser. Mae'r tîm adolygu'n **canmol** y ffordd systematig y mae'r Brifysgol wedi gweithredu ei menter 'Trawsnewid y Cwricwlwm' drwy'r sefydliad cyfan, sydd wedi sefydlu fframwaith cydlynol wedi'i seilio ar dystiolaeth ar gyfer ail-ddylunio pob rhaglen a addysgir er mwyn gwella profiad dysgu cyfan y myfyrwyr.

## Sylwadau am y broses o werthuso canlyniadau'r blaenoriaethau gwelliant, ac o adrodd amdanynt, a'r ffordd y mae hyn yn hysbysu datblygiadau a gweithgareddau gwella yn y dyfodol

38 Mae'r Brifysgol wedi dewis 'Cadwraeth a chynnydd y myfyrwyr' fel un o'i blaenoriaethau gwelliant er mwyn dangos ei dull o werthuso mentrau gwella. Mae'r tîm adolygu o'r farn bod gwaith y Brifysgol i wella cadwraeth a chynnydd ei myfyrwyr yn esiampl o ddull llwyddiannus o werthuso mentrau gwella, sy'n codi o flaenoriaeth T5 'Ymdeimlad o berthyn' y Strategaeth Addysg newydd. Er bod y Brifysgol yn monitro cadwraeth a chynnydd ei myfyrwyr yn flynyddol, penderfynodd sefydlu gweithgor penodol mewn ymateb i ddirywiad mewn cyfraddau cadwraeth ar draws y sector yn ystod blwyddyn academaidd 2021-22, yn ogystal â gostyngiad o 3.3% yn y Brifysgol. Sefydlwyd y Gweithgor Cadwraeth a Chynnydd i ganfod pwyntiau allweddol ar daith astudio'r myfyrwyr lle byddai ymyriad yn cefnogi cynnydd y myfyrwyr, yn helpu i'w cadw, ac yn cefnogi cyfathrebu parhaus gyda'r myfyrwyr. Mae'r Gweithgor Cadwraeth a Chynnydd wedi datblygu diffiniadau data, wedi mapio llwybrau cynnydd ac wedi canfod patrymau sy'n gysylltiedig â nodweddion y myfyrwyr.

39 Mae'r gweithgor hwn wedi creu dangosfwrdd data penodol ac wedi alinio hwn â gwaith 'Learner Analytics' cyfochrog y Brifysgol, sy'n dangos bod cyfraddau cadwraeth a chynnydd y myfyrwyr wedi gwella. Clywodd y tîm adolygu fod y gwelliannau hyn yn ganlyniad i gyflwyno ymyriad cynharach i fyfyrwyr lle bo'r gofyn, mewn ymateb i ddata am gynnydd, ymgysylltiad a methiant i gyflwyno; cyfathrebu â'r myfyrwyr mewn ffordd fwy cyson ar draws y cyfadrannau; deialog parhaus â myfyrwyr mewn perthynas â'u cynnydd gyda ffocws ar eu safbwyntiau eu hunain ynglŷn â sut mae llwyddiant yn edrych yn eu cyd-destun nhw; a newid mewn polisïau a gweithdrefnau, er enghraifft ar gyfer amgylchiadau esgusodol, monitro ymgysylltiad a thiwtora personol.

40 Nododd y tîm adolygu esiamplau o ymyriadau penodol, yn cynnwys rhoi cymorth cyn ac ar ôl arholiadau i'r myfyrwyr hynny y nodwyd eu bod dan risg, ar sail data sydd ar gael i staff y gwasanaethau proffesiynol a'r staff academaidd. Roedd y rhain yn cynnwys sesiynau adolygu a sesiynau i hybu llwyddiant academaidd, gorsafoedd cymorth â thraethodau yn y llyfrgell, cymorth uniondeb academaidd gan Lysgenhadon Uniondeb Academaidd, a chynlluniau mentora gan gymheiriaid. Yn nodedig, roedd data a mewnwelediad o waith a wnaed gan Undeb y Myfyrwyr yn dangos bod y myfyrwyr oedd yn cymryd rhan mewn clybiau a chymdeithasau'n symud ymlaen yn llawer cyflymach. Clywodd y tîm adolygu bod y canfyddiad hwn wedi dylanwadu ymhellach ar fentrau i hybu ymgysylltiad ac ymdeimlad o berthyn, mewn cydweithrediad ag Undeb y Myfyrwyr.

41 Roedd y Gweithgor Cadwraeth a Chynnydd yn gyfrifol am werthuso'r mentrau a roddwyd ar waith, gan adrodd drwy'r strwythurau llywodraethu addysg. Pennodd y gwerthusiad hwn nifer o feysydd a allai gefnogi cadwraeth a chynnydd y myfyrwyr, wedi'u halinio â thair thema: data, cymorth a pholisi. O ganlyniad, ffurfiwyd y Gweithgor Cadwraeth a Chynnydd yn Grŵp Data a Pherfformiad Myfyrwyr. Mae'r grŵp hwn wedi canolbwyntio ar ddefnyddio cyfresi o ddata gwell a rhai sy'n bodoli'n barod i'w trosi'n wybodaeth ystyrlon i'r staff, ac mae'n parhau â'i waith o ganfod patrymau mewn data mewnol ac allanol, er mwyn galluogi gweithredu i wella deilliannau dysgu'r myfyrwyr yn fwy prydlon.

42 Canfu'r tîm adolygu fod y berthynas gadarnhaol rhwng adrannau'r gwasanaethau proffesiynol a'r cyfadrannau'n un o'r prif ffactorau yn llwyddiant y mentrau a roddwyd ar waith i wella cadwraeth a chynnydd y myfyrwyr. Roedd y tîm adolygu o'r farn bod y Grŵp Data a Pherfformiad Myfyrwyr yn gweithio'n effeithiol i sicrhau bod y cyfadrannau'n defnyddio dulliau cyson o ymgysylltu â'r gwasanaethau proffesiynol a rhannu arferion da. Cadarnhaodd staff y gwasanaethau proffesiynol a'r staff academaidd mewn cyfarfodydd y defnyddir dull cyfannol ar draws y Brifysgol o ganfod risgiau, rhoi camau gweithredu ar waith, monitro cynnydd a chefnogi'r myfyrwyr. Nodwedd bwysig arall o'r dull partneriaeth yw cymunedau ymarfer.

43 Ar y cyfan, mae'r tîm adolygu o'r farn bod y Gweithgor Cadwraeth a Chynnydd a'r Grŵp Data a Pherfformiad Myfyrwyr wedi gweithredu cyfres o fentrau sy'n hynod effeithiol, gan werthuso'r camau gweithredu a gymerwyd mewn ffordd systematig er mwyn cefnogi cadwraeth a chynnydd y myfyrwyr. Gallai'r tîm adolygu gadarnhau bod cylch parhaus o adolygu, gwerthuso ac addasu'n arwain at fwy o gefnogaeth i ddeilliannau dysgu'r myfyrwyr.

# 4. Sylwadau ar y ffordd y mae'r darparwr yn cefnogi ac yn gwella profiad dysgu ei fyfyrwyr

44 Mae'r tîm adolygu'n hyderus bod gan y Brifysgol drefniadau effeithiol i gefnogi a gwella profiad dysgu ei myfyrwyr. Bu'r tîm adolygu'n ystyried ystod o ddogfennau, yn cynnwys y Strategaeth Addysg newydd a'i chynllun gweithredu cysylltiedig, pecyn cymorth y Fframwaith Cwricwlwm, yr Adroddiad Sicrwydd Ansawdd Blynyddol i'r Bwrdd Llywodraethwyr a chanllawiau i staff ar welliant parhaus. Hefyd, bu'r tîm adolygu'n ystyried cofnodion cyfarfodydd prif bwyllgorau'r sefydliad sydd â chyfrifoldebau am safonau academaidd ac ansawdd, dysgu ac addysgu, a phrofiad ehangach y myfyrwyr. Yn ogystal, cyfarfu'r tîm adolygu â'r staff a'r myfyrwyr.

## Y defnydd a wneir o bwyntiau cyfeirio allanol i gefnogi a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr

45 Mae'r Brifysgol yn defnyddio pwyntiau cyfeirio allanol mewn ffordd systematig i hysbysu ei phrosesau cynllunio, cymeradwyo ac adolygu rhaglenni. Trwy adolygu dogfennaeth y prosiectau 'Trawsnewid y Cwricwlwm' a 'Monitro Gwelliant Parhaus', canfu'r tîm adolygu fod trefniadau rheoli ansawdd y Brifysgol yn cynnwys cyfeiriadau at God Ansawdd Addysg Uwch y DU, y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop, y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru, y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch (FHEQ), Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC), Datganiadau Meincnodi Pwnc a Datganiadau o Nodweddion. Mae cyfresi data a meincnodau'r sector megis data'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, a metrigau tablau cynghrair, yn bwydo i mewn i'r broses o adolygu'r portffolio, dangosfyrddau 'Monitro Gwelliant Parhaus' a phrosesau adolygu perfformiad ar lefel y meysydd astudio.

46 Canfu'r tîm adolygu fod y Brifysgol yn defnyddio arolygon cenedlaethol priodol, yn cynnwys yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr, i feincnodi profiadau ei myfyrwyr israddedig yn erbyn y sector. Mae'r canllawiau i staff am y prosiectau 'Trawsnewid y Cwricwlwm' a 'Monitro Gwelliant Parhaus' yn cadarnhau bod y Brifysgol hefyd yn defnyddio arbenigedd allanol, megis arbenigwyr pwnc allanol, i gefnogi'r gwaith o ddatblygu rhaglenni newydd, ac yn defnyddio arholwyr allanol i adolygu ei darpariaeth. Nododd y tîm adolygu fod gan y Brifysgol fwy na 200 o raglenni sydd wedi eu hachredu gan gyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (cyrff PSRh), bod ymgysylltiad â chyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (cyrff PSRB) wedi ei ymwreiddio drwy gydol cylch oes pob rhaglen, a bod safonau proffesiynol yn hysbysu'r gwaith o ddylunio ac addysgu cwricwla.

47 I grynhoi, sicrhawyd y tîm adolygu bod y Brifysgol yn gwneud defnydd effeithiol o bwyntiau cyfeirio allanol priodol i gefnogi a gwella profiad dysgu ei myfyrwyr.

## Sylwadau ac adborth gan y myfyrwyr

48 Mae'r Brifysgol yn dangos dull trefnus o gasglu adborth gan ei myfyrwyr drwy ddefnyddio'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF), arolygon mewnol, 'Learner Analytics', Fforymau Ymgynghorol y Myfyrwyr, a systemau cynrychiolaeth Undeb y Myfyrwyr. Mae 'Arolwg Mawr Abertawe' yn ymestyn cyfleoedd ymhellach ar gyfer ymgysylltu y tu hwnt i fyfyrwyr sydd ym mlwyddyn olaf eu hastudiaethau israddedig, i fyfyrwyr ar bob lefel astudio. Nododd y tîm adolygu esiamplau o feysydd lle mae adborth gan y myfyrwyr wedi hysbysu gwelliannau, er enghraifft cyfathrebu drwy'r platfform dysgu digidol, rhoi gwybodaeth am faterion academaidd, amserlennu, darparu cyngor yn ystod oriau'r swyddfa, a gwasanaethau cymorth. Trwy adolygu cofnodion pwyllgorau'r Brifysgol ar lefelau'r ysgolion, y cyfadrannau a'r sefydliad, cadarnhawyd bod cynrychiolaeth y myfyrwyr wedi ei hymwreiddio ym mhrosesau sicrhau a gwella ansawdd y Brifysgol. Canfu'r tîm adolygu fod yr adroddiad ansawdd blynyddol gan Undeb y Myfyrwyr, sy'n derbyn ystyriaeth gan y Cyngor, yn cynnig mewnwelediad manwl i farn a blaenoriaethau'r

myfyrwyr. Mae cynrychiolwyr y myfyrwyr yn cymryd rhan mewn Grwpiau Gweithredu a Gwella ac yn cyfrannu at drafodaethau ynglŷn â darparu rhaglenni, profiad y myfyrwyr, a meysydd sydd angen eu gwella, ac mae adborth gan y myfyrwyr yn hysbysu cynllunio camau gweithredu a gwneud penderfyniadau.

49 Nododd y tîm adolygu esiamplau o feysydd lle gallai'r Brifysgol ystyried cymryd camau mwy rhagweithiol i gryfhau'r cyfathrebu a chau'r ddolen adborth. Roedd tystiolaeth yn dangos bod rhai o'r myfyrwyr yn parhau'n ansicr am gamau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i adborth a doedden nhw ddim yn ymwybodol o systemau megis 'FyMhresenoldeb' a 'Learner Analytics'. Ymhellach, yn ystod yr ymweliad adolygu, dywedodd rhai o'r myfyrwyr, yn enwedig y myfyrwyr ôl-raddedig a'r myfyrwyr sy'n astudio ar gyrsiau darpariaeth gydweithredol dramor, nad yw'r adnoddau llyfrgell i gyd ar gael iddynt.

50 Mae tystiolaeth o astudiaethau achos yn dangos ymrwymiad y Brifysgol i gryfhau ymgysylltiad a gwaith partneriaeth â'r myfyrwyr. Canfu'r tîm adolygu bod y trosglwyddiad o'r Pwyllgor Partneriaeth ac Ymgysylltu â Myfyrwyr i Fforwm Ymgynghorol y Myfyrwyr wedi gwella cynhwysiant a chyfleoedd i'r myfyrwyr gyfranogi, tra bo mentrau megis y rhaglen 'Llysgennad Uniondeb Academaidd' a sesiynau sgiliau dan arweiniad myfyrwyr yn cefnogi gweithio a chreu ar y cyd â'r myfyrwyr ymhellach a'u cynnwys mewn gweithgareddau gwella.

51 Canfu'r tîm adolygu fod gwelliannau gweladwy i'w cael ym meysydd cyfathrebu ac addysgu ac yn y gwasanaethau cymorth a hynny drwy weithredoedd fel ymwreiddio llais y myfyrwyr yn y strwythurau llywodraethu, datblygu mentrau dan arweiniad myfyrwyr megis y rhaglen 'Llysgennad Uniondeb Academaidd', a gweithredu mewn ymateb i adborth o sianelau niferus. Mae'r tîm adolygu'n **canmol** y ffordd y mae staff gwasanaethau proffesiynol, staff academaidd a myfyrwyr y Brifysgol wedi gweithio mewn partneriaeth i wella profiad y myfyrwyr.

## Datblygiadau i wella'r dysgu a'r addysgu a drefnir mewn partneriaeth â'r myfyrwyr

52 Mae'r tîm adolygu o'r farn bod y Brifysgol yn dangos dull strategol trefnus o wella'r dysgu a'r addysgu drwy weithio mewn partneriaeth â'i myfyrwyr, cynrychiolwyr Undeb y Myfyrwyr, a rhanddeiliaid allanol. Mae'r Cynllun Blynyddol Addysg ar gyfer 2025-26 yn nodi nifer o flaenoriaethau, yn cynnwys ail-ddylunio'r cwricwlwm, gweithredu rhyngwyneb yr Hwb ar gyfer gwasanaethau myfyrwyr, datblygu'r Tîm Datblygu Addysg, a gwaith gwella sy'n cael ei hysbysu gan ddata am y myfyrwyr a'u profiadau. Mae datblygiadau 'Learner Analytics', drwy'r fenter 'FyMhresenoldeb', yn amcanu i gryfhau adnabyddiaeth o anghenion y myfyrwyr am gymorth ac ymgysylltiad, ochr yn ochr â phrosiectau sy'n canolbwyntio ar ymdeimlad y myfyrwyr o berthyn a'u profiad ar y campws.

53 Mae'r gweithgareddau 'Trawsnewid y Cwricwlwm' yn dangos gwelliannau sydd wedi eu hysbysu gan y myfyrwyr trwy ddulliau asesu cynhwysol ar sail gwaith go iawn yn yr Adran Ffiseg ac Adran y Biowyddorau, cefnogi ymgysylltiad, hygyrchedd, a datblygiad sgiliau. Mae partneriaeth gyda'r myfyrwyr yn amlwg hefyd yng nghyd-ddatblygiad y Fframwaith DA Cynhyrchiol a'r raddfa 'DA mewn Asesiadau', oedd yn cynnwys Llysgenhadon Uniondeb Academaidd, ymchwilwyr ôl-raddedig, a chynrychiolwyr y myfyrwyr. Hefyd, mae mentrau ehangach, megis Cymunedau Academaidd, y Lolfa Fyd-eang, a chyfleoedd i wirfoddoli yn y Tîm GO!, o gymorth ychwanegol i gefnogi ymgysylltiad, cyflogadwyedd ac ymdeimlad o berthyn.

## Effeithiolrwydd y strategaeth addysgu a dysgu o ran gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu

54 Canfu'r tîm adolygu fod strategaeth addysg newydd y Brifysgol, sy'n amlinellu ymagwedd strategol y Brifysgol tuag at ddysgu ac addysgu, yn gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu'n effeithiol.

Mae'r Strategaeth Addysg newydd yn hysbysu mentrau i wella ansawdd y cyfleoedd dysgu, sy'n dod yn weithredol drwy ei chynllun gweithredu cysylltiedig a'r broses gynllunio flynyddol.

55 Trwy adolygu cofnodion pwyllgorau, cadarnhawyd bod y mentrau gwella, a'r datblygiad a wneir o ran cyflawni'r blaenoriaethau gwelliant, yn cael eu monitro'n effeithiol gan y Bwrdd Gwella Addysg. Goruchwylir y bwrdd hwn gan Bwyllgor Addysg y Brifysgol sy'n adrodd i'r Senedd a'r Cyngor. Mae'r Bwrdd Gwella Addysg yn cael ei gynghori gan Fforwm Ymgynghorol y Myfyrwyr a'r Grŵp Data a Pherfformiad Myfyrwyr, gan sicrhau bod adborth gan y myfyrwyr ynghyd â data am eu perfformiad yn cyfrannu at y gwaith o fonitro a gwerthuso gweithgareddau gwella. Trwy adolygu cylchoedd gwaith pwyllgorau, cadarnhawyd bod y myfyrwyr yn cymryd rhan weithredol fel partneriaid yn y gwaith o wella'r cyfleoedd dysgu.

56 Un o bum blaenoriaeth y Strategaeth Addysg yw 'Cwricwlwm Trawsnewidiol'. Canfu'r tîm adolygu fod y prosiect 'Trawsnewid y Cwricwlwm' i gyflwyno fframwaith cwricwlwm newydd, wedi bod yn effeithiol o ran gyrru amcanion y Strategaeth Addysg i wella ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr. Gallai'r tîm adolygu gadarnhau bod pob un o'r rhaglenni wedi eu dilysu yn erbyn meini prawf y fframwaith erbyn hyn, sydd wedi cynnwys cydweithredu estynedig â'r myfyrwyr a'r rhanddeiliaid.

57 Mae'r Strategaeth Iaith a Diwylliant Cymraeg ar gyfer 2022-27 wedi gweithio'n effeithiol i wella ansawdd y cyfleoedd dysgu sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Trwy adolygu dogfennaeth a chadarnhau'r canfyddiadau mewn cyfarfod â'r staff academaidd sy'n arwain y gwaith ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, canfuwyd bod y prosiect 'Trawsnewid y Cwricwlwm' wedi galluogi i'r Brifysgol gynnig amrywiaeth ehangach o fodiwlau drwy gyfrwng y Gymraeg a chynyddu'r gyfran o siaradwyr Cymraeg sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y Brifysgol.

58 Mae'r data am berfformiad y myfyrwyr yn dangos bod cyfraddau cadwraeth a chynnydd y myfyrwyr yn gwella, a bod perfformiad y Brifysgol yn cymharu'n ffafriol â meincnodau'r sector mewn perthynas â chanlyniadau'r ACF a deilliannau'r graddedigion. O'r herwydd, mae'r tîm adolygu'n hyderus bod y Strategaeth Addysg newydd yn gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu'n llwyddiannus.

## Gwerthusiad o ba mor effeithiol yw'r mentrau i wella'r dysgu a'r addysgu

59 Mae'r Brifysgol wedi dangos bod ganddi ddull trefnus o wella'r dysgu a'r addysgu ar sail data, wedi'i danategu gan y Strategaeth Addysg newydd, y broses gynllunio flynyddol a threfnau llywodraethu. Pennir blaenoriaethau gwelliant drwy ystyried data sefydliadol, yn cynnwys data'r ACF, deilliannau'r graddedigion, cyfradd cadwraeth y myfyrwyr a dangosyddion perfformiad eraill, yn ogystal ag adborth gan y myfyrwyr ac amcanion strategol y Brifysgol. Mae gweithgareddau gwella'n cael eu cydlynu gan Bwyllgor Addysg y Brifysgol, gyda chefnogaeth Pwyllgorau Addysg y Cyfadrannau, a Byrddau Astudiaethau, sy'n darparu llinellau adrodd clir o lefel y rhaglenni hyd lefel y sefydliad ac sy'n cael ei ddeall yn dda gan staff academaidd a staff proffesiynol.

60 Canfu'r tîm adolygu fod y Brifysgol wedi sefydlu prosesau sicrhau ansawdd effeithiol i fonitro a gwerthuso gweithgareddau gwella, yn arbennig drwy gyflwyno 'Monitro Gwelliant Parhaus' a chardiau sgorio cysylltiedig sy'n dangos metrigau ansawdd allweddol. Mae'r rhain yn darparu dull o werthuso rhaglenni'n barhaus ar sail tystiolaeth, wedi'i gefnogi gan Gynlluniau Gwella Rhaglenni sy'n galluogi canfod problemau'n gyflym a chynllunio camau gweithredu i fynd i'r afael â nhw. Disgrifiodd yr arweinwyr uwch y dull 'Monitro Gwelliant Parhaus' fel gwelliant sylweddol o'i gymharu â dulliau blynyddol a chyfnodol blaenorol oherwydd mae'n cefnogi adolygiad parhaus ac yn caniatáu i dimau'r rhaglenni addasu blaenoriaethau mewn ymateb i dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg.

61 Mae'r tîm adolygu o'r farn bod gan y Brifysgol drefniadau effeithiol sefydledig ar gyfer gwerthuso mentrau i wella'r dysgu a'r addysgu, gan ddefnyddio tystiolaeth i hysbysu gwelliant parhaus.

## Y cymorth academaidd a bugeiliol a'r cymorth dysgu sydd ar gael i'r myfyrwyr

62 Canfu'r tîm adolygu fod y Brifysgol yn dangos dull o ddarparu cymorth dysgu a chymorth academaidd a bugeiliol sy'n datblygu ac yn dod yn gynyddol integredig drwy systemau digidol, trefniadau tiwtora personol a mentrau i hybu cyflogadwyedd. Mae adran 'Tiwtoriaid Personol' y platfform dysgu digidol 'Hwb', lle mae oddeutu 600 o aelodau'r staff wedi eu cofrestru, yn cynrychioli symudiad tuag at fwy o safoni a chysondeb yn narpariaeth y cymorth tiwtora personol. Mae'r system 'FyMhresenoldeb' well yn golygu bod modd adnabod anghenion y myfyrwyr yn gynnar, mae'n cefnogi lles a chynnydd, ac mae'n caniatáu i ryngweithio ar lefelau academaidd a bugeiliol gael eu cofnodi o fewn un platfform cyfunol, gan olygu bod modd cydlynu cefnogaeth yn well. Yn ogystal, cadarnhaodd y myfyrwyr israddedig yn ystod yr ymweliad bod y gefnogaeth gan fyfyrwyr trydedd flwyddyn drwy gyfrwng y system gyfeillio'n gweithio'n effeithiol i helpu myfyrwyr blwyddyn gyntaf i ymgartrefu yn y Brifysgol. Yn fwy na hynny, mae'r fenter 'Hwb', a ddatblygwyd mewn cydweithrediad ag Undeb y Myfyrwyr, wedi symleiddio mynediad i'r gwasanaethau cymorth a gwell llywio ar draws y ddarpariaeth gyfan. Cadarnhaodd myfyrwyr o'r ddau gampws eu bod yn cael profiadau tebyg.

63 Mae tystiolaeth yn dangos bod y Brifysgol yn ymwreiddio amrywiaeth o fentrau cyflogadwyedd yn llwyddiannus, yn cryfhau datblygiad sgiliau trosglwyddadwy ac yn cefnogi cyfranogaeth mewn cyfleoedd dysgu ar sail gwaith go iawn. Trwy adolygu dogfennaeth a thrafod gyda staff y gwasanaethau proffesiynol mewn cyfarfodydd, cadarnhawyd bod y Brifysgol wedi sicrhau mynediad mwy cyfartal at gyfleoedd i ddatblygu parodrwydd gyrfaol ar draws y sefydliad drwy sefydlu Bwrdd Dyfodol Myfyrwyr, cyfuno'r gwasanaeth gyrfaoedd a'r gwasanaeth cyflogadwyedd a sefydlu ei Strategaeth Cyflogadwyedd a Sgiliau. Mae'r Tîm Sgiliau Cyflogadwyedd wedi cydweithio'n uniongyrchol â'r staff academaidd wrth ddatblygu rhaglenni yn rhan o'r prosiect 'Trawsnewid y Cwricwlwm', er mwyn ymwreiddio cyflogadwyedd yn y dysgu a'r addysgu, yn unol â fframwaith priodoleddau graddedigion y Brifysgol. Nododd y tîm adolygu fod y Tîm Sgiliau Cyflogadwyedd wedi gwneud cynnydd sylweddol yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol diffiniedig am gyflogadwyedd myfyrwyr, yn cynnwys data am ddeilliannau'r graddedigion ac ymgysylltiad myfyrwyr o gefndiroedd 'ehangu cyfranogaeth', ac mae hyn yn dystiolaeth i ddangos bod gan y Brifysgol ddull strategol o hybu cyflogadwyedd. Roedd y myfyrwyr yn canmol esiamplau o welliannau mewn cyflogadwyedd yn eu meysydd astudio, ac yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt i wirfoddoli yn y gymuned a hyfforddi mewn meysydd megis cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

64 Yn ogystal, canfu'r tîm adolygu fod y Brifysgol yn gweithio'n agos â chyflogwyr i ddeall eu hanghenion o ran eu gweithlu a sicrhau bod y graddedigion wedi eu paratoi'n dda ar gyfer byd gwaith. Nododd y tîm adolygu esiamplau arloesol o gyfleoedd dysgu ar sail gwaith go iawn sydd wedi eu halinio â'r Fframwaith Priodoleddau Graddedigion, ac esiamplau o leoliadau gwaith a chyfleoedd dysgu seiliedig ar waith. Hefyd, rhoddodd y staff uwch a'r staff academaidd esiamplau o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sy'n anghenion penodol o ran y gweithlu, er enghraifft mewn Meddygaeth a Phroffesiynau Perthynol i Iechyd ac yn y Cyfryngau Chwaraeon, ac esiamplau o brosiectau gwirfoddoli a gweithgareddau ymgysylltu â chyflogwyr dan arweiniad myfyrwyr. Mae'r tîm adolygu'n **canmol** y Brifysgol am ei mentrau cyflogadwyedd sy'n cyfrannu at wella parodrwydd gyrfaol ei myfyrwyr.

65 Dywedodd y myfyrwyr fod diffyg eglurder ynglŷn â'r prosesau a'r gofynion o ran tystiolaeth sy'n gysylltiedig ag amgylchiadau esgusodol. Nododd y tîm adolygu rywfaint o anghysondeb rhwng dealltwriaeth y myfyrwyr o'r dystiolaeth sy'n ofynnol i ategu eu ceisiadau a'r canllawiau sydd wedi eu nodi ym mholisïau cyhoeddedig y Brifysgol. Mae'r ffaith bod profiadau'r myfyrwyr

yn amrywio rhwng gwahanol gyfadrannau hefyd yn awgrymu bod gweithdrefnau'n cael eu dehongli a'u cymhwyso mewn ffordd anghyson. Felly, mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y Brifysgol yn adolygu ei chanllawiau a'i harferion yn ymwneud ag amgylchiadau esgusodol, er mwyn dileu amwysedd a sicrhau mwy o eglurder a chysondeb i'w myfyrwyr i gyd. Yn arbennig, byddai cyfathrebu mwy eglur, prosesau mwy cyson ar draws y cyfadrannau, a gwell arwyddo at lwybrau penderfynu a chanlyniadau'n cefnogi profiad mwy cyfartal ac eglur i fyfyrwyr.

66 Roedd tystiolaeth i ddangos bod rhai o'r myfyrwyr yn parhau'n ansicr ynglŷn â swyddogaeth eu tiwtor personol a'r amrediad o systemau cymorth sydd ar gael iddyn nhw. Yn ogystal, tynnwyd sylw yn ystod yr ymweliad at bryderon ynglŷn ag argaeledd tiwtoriaid personol, a dywedodd rhai o'r myfyrwyr eu bod yn cael anhawster cael gafael ar gymorth mewn da bryd oherwydd galwadau cyferbyniol ar lwyth gwaith y tiwtoriaid. Mae hyn yn amlygu'r angen am welliant pellach mewn cyfathrebu gwybodaeth ynghylch y gwasanaethau cymorth, ac mewn amlygrwydd a hybu ymwybyddiaeth y myfyrwyr ohonynt, er mwyn sicrhau dealltwriaeth fwy cyson a mynediad mwy cyfartal i'r gwasanaethau hyn.

## Y ffordd y mae'r staff yn cael eu penodi a'u hyfforddi a'r cyfleoedd datblygu sydd ar gael iddynt

67 Canfu'r tîm adolygu fod gan y Brifysgol ddull strategol clir o ddatblygu ei staff, o dan oruchwyliaeth y Bwrdd Gwella Addysg, a bod y dull hwn yn cyfateb â blaenoriaeth 'Ysbrydoli pobl' y Strategaeth Addysg. Mae'r Brifysgol yn darparu rhaglen ddatblygu drefnus dan arweiniad Tîm Datblygu Addysg Prifysgol Abertawe, sy'n cynnig Tystysgrif i Raddedigion, statws Cymrawd Advance HE, gweithdai pwrpasol a'r Gynhadledd Dysgu ac Addysgu flynyddol. Mae'r gwelliannau diweddar yn cynnwys y gwaith o ail-ddylunio trefniadau arsylwi gan gymheiriaid a datblygiadau mewn meysydd sydd wrthi'n datblygu, megis DA cynhyrchiol.

68 Hefyd, canfu'r tîm adolygu fod y cyfleoedd hyn ar gael i staff y gwasanaethau proffesiynol gymryd rhan ynddynt. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau a arweinir gan y Tîm Datblygu Addysg yn agored i staff y gwasanaethau proffesiynol, ac mae cyfleoedd ar gael iddyn nhw hefyd i ennill y Dystysgrif i Raddedigion a gwneud cais am statws Cymrawd Advance HE, ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf perthnasol. O'r 791 o aelodau staff y Brifysgol sydd â statws Cymrawd, mae 33 yn gweithio yn y gwasanaethau proffesiynol.

69 Ar y cyfan, mae'r tîm adolygu o'r farn bod y Brifysgol yn darparu cyfleoedd datblygiad cynhwysfawr a chydlynol i'w staff sy'n cefnogi'r staff academaidd a staff y gwasanaethau proffesiynol i wella profiad dysgu'r myfyrwyr.

## Y ffordd y mae arferion da'n cael eu lledaenu

70 Canfu'r tîm adolygu fod y Brifysgol wedi sefydlu trefnau llywodraethu i gefnogi lledaenu arferion da, gyda'r Bwrdd Gwella Addysg yn goruchwylio gweithgareddau gwella a datblygiad staff. Mae'r mecanweithiau'n cynnwys cymunedau ymarfer traws-sefydliadol ar gyfer swyddogaethau penodol a datblygiad academaidd trefnus dan arweiniad y Tîm Datblygu Addysg, ochr yn ochr â digwyddiadau sefydliadol megis y Gynhadledd Dysgu ac Addysgu.

71 Canfu'r tîm adolygu fod lledaeniad wedi'i ymwreiddio yn y gweithgareddau 'Trawsnewid y Cwricwlwm', lle mae gweithdai pwrpasol ac adnoddau ategol yn hyrwyddo dulliau cyson ar draws y rhaglenni. Mae tystiolaeth yng ngwerthusiad y Brifysgol o'i phrosiect 'Trawsnewid y Cwricwlwm' i ddangos bod arferion da wedi eu nodi'n systematig ac yn cael eu lledaenu'n ehangach.

72 Mae'r tîm adolygu o'r farn bod gan y Brifysgol drefniadau datblygedig ar gyfer lledaenu arferion da mewn cefnogi a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr. Mae'r trefniadau hyn yn cael eu hymwreiddio fwyfwy, ac mae tystiolaeth i ddangos eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol.

## Crynodeb o'r trefniadau i gefnogi a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr

73 Ar y cyfan, mae'r tîm adolygu'n hyderus bod gan y Brifysgol drefniadau priodol ac effeithiol i gefnogi a gwella profiad dysgu ei myfyrwyr. Nododd y tîm adolygu nifer o esiamplau sy'n dangos bod y Brifysgol yn gwneud defnydd effeithiol o bwyntiau cyfeirio allanol, data, prosesau rheoli ansawdd a gwaith partneriaeth gyda'i myfyrwyr i yrru mentrau sicrhau a gwella ansawdd. Yn arbennig, roedd hi'n amlwg i'r tîm adolygu fod yr ymarfer 'Trawsnewid y Cwricwlwm' yn yrrwr grymus o ran gwella profiad dysgu'r myfyrwyr.

# 5. Prosesau yn ymwneud ag ansawdd a safonau academaidd

74 Mae'r tîm adolygu'n hyderus bod gan y Brifysgol drefniadau effeithiol i reoli a gwella ei safonau a'i hansawdd academaidd. Bu'r tîm adolygu'n ystyried ystod o ddogfennau, yn cynnwys y Strategaeth Addysg newydd a'i chynllun gweithredu cysylltiedig, pecyn cymorth y Fframwaith Cwricwlwm, yr Adroddiad Sicrwydd Ansawdd Blynyddol i'r Bwrdd Llywodraethwyr a chanllawiau i staff ar welliant parhaus. Yn ogystal, bu'r tîm adolygu'n ystyried sampl o adroddiadau'r prosesau rheoli ansawdd a chofnodion cyfarfodydd prif bwyllgorau'r sefydliad. Mewn cyfarfodydd, clywodd y tîm adolygu gan y staff a'r myfyrwyr bod y trefniadau hyn yn effeithiol a'u bod yn cael eu datblygu ymhellach yn barhaus.

## Y datblygiadau a gafwyd yn y dulliau y mae'r darparwr yn eu defnyddio i reoli ansawdd a safonau ei ddarpariaeth

75 Ar lefel y sefydliad, nododd y tîm adolygu fod newidiadau wedi eu gwneud i'r ffordd y mae'r Brifysgol yn llywodraethu addysg, gyda'r nod o fod yn fwy ystwyth ac eglur ac o ganolbwyntio fwy ar sicrhau gwelliant. Mae gan y Senedd y cyfrifoldeb cyffredinol am ddarpariaeth academaidd y Brifysgol. Mae Pwyllgor Addysg y Brifysgol yn adrodd i'r Senedd, ac mae'n pennu ac yn llywio strategaethau addysg mewn perthynas â dysgu, addysgu a phrofiad y myfyrwyr. Mae dau is-grŵp i'r pwyllgor hwn, y Bwrdd Rheoliadau, Ansawdd a Safonau a'r Bwrdd Gwella Addysg, sydd â chylch gwaith penodol ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd a safonau. Nod y Brifysgol oedd cryfhau'r trefniadau llywodraethu academaidd ymhellach drwy gynyddu nifer y Dirprwy Is-Gangellorion Cynorthwyol, gan gynnwys drwy benodi Dirprwy Is-Ganghellor Cynorthwyol (Ansawdd a Safonau Addysg) sydd â'r cylch gwaith o bontio'r bwlch rhwng strategaeth a gweithrediad.

76 Ail-drefnodd y Brifysgol ei saith coleg academaidd yn dair Cyfadran, er mwyn symleiddio ei threfnau llywodraethu i sicrhau eu bod yn fwy effeithiol ac atebol ac i sicrhau bod ei phrosesau'n fwy cyson. Mae strwythur llywodraethu a gweinyddu cyffredin ym mhob Cyfadran, sy'n cynnwys Pwyllgor Addysg y Gyfadran dan gadeiryddiaeth Deon Cyswllt (Addysg) sy'n adrodd i Bwyllgor Addysg y Brifysgol. Cylch gwaith Pwyllgor Addysg y Gyfadran yw sicrhau a gwella ansawdd a gweithredu polisi. Sefydlwyd cymunedau ymarfer i greu rhwydweithiau traws-sefydliadol sy'n cefnogi cysondeb ac yn rhannu arferion da.

77 Mae ymgysylltiad â myfyrwyr wedi ei ymwreiddio mewn prosesau sicrhau ansawdd, a sicrheir cynrychiolaeth a deialog drwy drefniadau ffurfiol megis Byrddau Astudiaethau, Fforymau Myfyrwyr-Staff a phwyllgorau'r Brifysgol. Dywedodd y myfyrwyr hefyd eu bod yn cymryd rhan weithredol fel partneriaid mewn mentrau megis 'Trawsnewid y Cwricwlwm'.

78 Canfu'r tîm adolygu fod y Brifysgol wedi buddsoddi'n sylweddol yn ei phrosesau sy'n ymwneud â data er mwyn hysbysu prosesau penderfynu'n well a'u galluogi i weithio'n fwy ystwyth. Mae'r Grŵp Data a Pherfformiad Myfyrwyr a'r Byrddau Dyfodol Myfyrwyr yn darparu data a gwybodaeth yn erbyn metrigau allweddol. Mae'r system 'Swansea Insights' yn cyfuno data oedd yn dameidiog gynt i mewn i ddangosfyrddau. Cadarnhaodd staff y gwasanaethau proffesiynol a'r staff academaidd fod y newidiadau hyn wedi arwain at gynnydd mewn hyder a diddordeb mewn defnyddio data, a chynhyrchu tystiolaeth amserol i'w ddarparu i grwpiau llywodraethu.

79 Mae prosesau cymeradwyo ac addasu rhaglenni wedi eu cyfuno o dan gyfrifoldeb y Bwrdd Cymeradwyo a Gwella Portffolio. Mae'r fenter 'Monitro Gwelliant Parhaus', gyda'r defnydd a wneir o Gynlluniau Gwella Rhaglenni, wedi peri datblygiad pellach yn y ffordd y mae'r Brifysgol yn goruchwylio ansawdd a safonau, drwy symud i ddull seiliedig ar risg.

## Y defnydd a wneir o brosesau ansawdd i gadarnhau bod y darparwr yn parhau i reoli safonau ei ddarpariaeth yn effeithiol

80 Mae'r Adroddiad Sicrwydd Ansawdd Blynyddol i'r Bwrdd Llywodraethwyr yn cadarnhau iddynt fod y Brifysgol yn rheoli safonau mewn ffordd briodol. Mae'n cynnwys adrannau am arholwyr allanol ac am ddeialog ag Undeb y Myfyrwyr, ac mae hyn yn dangos goruchwyliaeth strategol sy'n ystyried barn y rhanddeiliaid allweddol hyn. Mae'r broses 'Monitro Gwelliant Parhaus' yn ymwreiddio gwaith sicrhau a gwella ansawdd ar hyd taith astudio gyfan y myfyrwyr, gan ddefnyddio data byw a chynllunio camau gweithredu pwrpasol. Mae'r safonau'n cael eu gosod a'u cynnal yn unol â Chod Ansawdd Addysg Uwch y DU a disgwyliadau Medr. Mae gan y Brifysgol fwy na 200 o raglenni sydd wedi eu hachredu gan gyrff PSRB, ac mae'n cadw cofrestr o raglenni sydd wedi eu hachredu a'u cymeradwyo gan gyrff PSRB.

81 Nododd y tîm adolygu mai'r Bwrdd Rheoliadau, Ansawdd a Safonau yw'r corff sy'n goruchwylio ac yn cymeradwyo pob rheoliad a pholisi newydd neu ddiwygiedig ar ran Pwyllgor Addysg y Brifysgol. Mae'r Bwrdd Rheoliadau, Ansawdd a Safonau'n derbyn adroddiadau rheolaidd am ganlyniadau arholiadau, canfyddiadau'r arholwyr allanol a pherfformiad y rhaglenni. Rhoddir sylw i dwf y ddarpariaeth addysg gydweithredol a thrawswladol.

82 Ar lefel leol, mae Pwyllgorau Addysg y Cyfadrannau a'u Byrddau Astudiaethau, dan gadeiryddiaeth cyfarwyddwyr y rhaglenni, yn craffu ar arferion addysgu, asesu a rhoi adborth, gan ddefnyddio data am berfformiad y modiwlau, data o arolygon ac adroddiadau arholwyr allanol i ymwreiddio ystyriaeth o safonau yn y gwaith o ddydd i ddydd.

83 I grynhoi, sicrhawyd y tîm adolygu bod y Brifysgol yn defnyddio prosesau sicrhau ansawdd yn effeithiol i reoli a chynnal safonau ar draws ei holl bortffolio.

## Y defnydd a wneir o brosesau ansawdd i gadarnhau bod y darparwr yn parhau i reoli ansawdd ei ddarpariaeth yn effeithiol

84 Canfu'r tîm adolygu fod gan y Brifysgol fframwaith cyson a threfnus ar gyfer rheoli safonau ac ansawdd academaidd, wedi'i ategu gan drefnau llywodraethu clir a chyfrifoldebau penodol ar bob lefel yn y sefydliad. Mae'r Senedd yn cadw goruchwyliaeth drosfwaol ar faterion academaidd, tra bo Pwyllgor Addysg y Brifysgol a'i is-bwyllgorau – sy'n cynnwys y Bwrdd Rheoliadau, Ansawdd a Safonau a'r Bwrdd Gwella Addysg – yn gyfrifol am ddatblygu, gweithredu a monitro rheoliadau academaidd, prosesau sicrhau ansawdd a blaenoriaethau gwelliant.

85 Ar lefel y rhaglenni, mae gan y Byrddau Astudiaethau a Fforymau Addysg yr Ysgolion rolau canolog yn y gwaith o sicrhau a gwella ansawdd profiad dysgu'r myfyrwyr. Mae eu cylchoedd gwaith a chofnodion eu cyfarfodydd yn dangos bod perfformiad y rhaglenni, adborth gan y myfyrwyr, adroddiadau arholwyr allanol, canlyniadau asesiadau a datblygiad y cwricwlwm, gan gynnwys 'Trawsnewid y Cwricwlwm', yn cael eu hystyried yn weithredol. Cadarnhaodd y staff a'r arweinwyr uwch fod yna ddealltwriaeth dda o'r trefniadau hyn a'u bod yn gweithio'n effeithiol.

86 Mae'r Brifysgol yn gwneud defnydd systematig o ddata sefydliadol i hysbysu prosesau sicrhau a gwella ansawdd. Mae'r fenter 'Monitro Gwelliant Parhaus', cardiau sgorio o ddangosyddion perfformiad allweddol a Chynlluniau Gwella Rhaglenni'n elfennau o broses integredig barhaus o ganfod problemau, rhoi camau gweithredu ar waith ac adolygu eu heffeithiau. Hefyd, gwelodd y tîm adolygu astudiaethau achos oedd yn dangos sut yr oedd ymyriadau pwrpasol ar sail data arolygon myfyrwyr a data am berfformiad wedi arwain at welliannau mesuradwy ym mhrofiad y myfyrwyr.

87 Ar y cyfan, mae'r tîm adolygu o'r farn bod y Brifysgol yn defnyddio ei phrosesau sy'n ymwneud ag ansawdd yn effeithiol i gadarnhau ei bod yn parhau i reoli ansawdd yn effeithiol. Mae'r ffordd systematig o ddefnyddio data, y dyrannu cyfrifoldebau'n glir, a'r cyfuniad o brosesau

monitro a gwella'n rhoi sicrwydd cadarn bod safonau ac ansawdd academaidd yn cael eu cynnal a'u gwella ar draws y sefydliad cyfan.

## Y ffordd y mae prosesau ansawdd y darparwr yn cyfrannu at sicrhau bod profiad dysgu ei fyfyrwyr yn cael ei wella a'i gyfoethogi

88 Mae'r Brifysgol yn gwneud defnydd systematig o bwyntiau cyfeirio allanol i sicrhau safonau a thywys gwelliannau. Mae Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU, y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop a disgwyliadau rheoleiddiol Medr yn siapio polisïau a phrosesau'r sefydliad. Mae'r Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch (FHEQ), Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC), y Datganiadau Meincnodi Pwnc a'r Nodweddion Gradd yn hysbysu'r prosesau o gymeradwyo rhaglenni ac adolygu'r portffolio. Mae Byrddau Cynghori Rhanddeiliaid yn rhoi'r cyfle i gyflogwyr gymryd rhan yn y gwaith o lunio a darparu cwricwla ar y cyd.

89 Nododd y tîm adolygu fod amrywiaeth eang o gyrff PSRh yn cyfranogi drwy oes gyfan y rhaglenni. Mae'r Brifysgol yn defnyddio amseriadau ail-gymeradwyo, prosesau hunanwerthuso blynyddol a threfnau adrodd ffurfiol i gynnal cydymffurfiad ac eglurder, ac mae'n ceisio trafod â chyrff PSRB yn gynnar os gallai newidiadau arfaethedig effeithio ar benderfyniadau cymeradwyo. Mae'r cyrff hyn hefyd yn cyfrannu at weithgareddau gwella drwy'r mecanweithiau yma. Mae arbenigwyr pwnc allanol yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu rhaglenni newydd drwy ddarparu dilysiad academaidd a marchnadol annibynnol. Mae'r Bwrdd Cymeradwyo a Gwella Portffolio a'r Bwrdd Rheoli Portffolio'n goruchwylio'r gwaith hwn.

90 Mae'r Fframwaith Deallusrwydd Artiffisial yn dangos ymrwymiad amlwg i ddefnyddio DA mewn asesiadau mewn ffordd foesegol a derbyniol, yn enwedig mewn perthynas ag uniondeb, gonestrwydd ac aliniad â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC). Cadarnhaodd y myfyrwyr a'r staff academaidd fod y polisi wedi eu cefnogi wrth ddefnyddio DA, yn arbennig mewn asesiadau.

91 I grynhoi, sicrhawyd y tîm adolygu bod gan brosesau rheoli ansawdd rôl integrol yn y gwaith o wella profiad y myfyrwyr.

## Crynodeb sy'n dangos effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau academaidd

92 Ar y cyfan, mae'r tîm adolygu'n hyderus bod gan y Brifysgol drefniadau cadarn ac effeithiol ar gyfer sicrhau safonau ac ansawdd academaidd. Gwelwyd tystiolaeth o strwythurau sefydliadol clir yn fframwaith rheoleiddio a llywodraethu cynhwysfawr y Brifysgol, sy'n darparu sylfaen gadarn i gynnal a gwella safonau academaidd ar draws y ddarpariaeth i gyd. Mae ei pholisïau a'i gweithdrefnau'n cyfateb â fframweithiau cenedlaethol, megis Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) a'r Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch (FHEQ), ac mae hyn yn helpu i sicrhau y cedwir y safonau trothwy ymhob un o'r meysydd astudio a'r dulliau darparu. Yn fwy na hynny, mae ei phrif bolisïau, yn cynnwys y Polisi Asesu, Marcio ac Adborth, wedi eu halinio â gofynion sefydliadol perthnasol a disgwyliadau ar gyfer y sector, gan sicrhau cysondeb mewn perthynas ag arferion asesu, uniondeb academaidd, cynhwysiant a materion yn ymwneud â DA cynhyrchiol.

93 I gloi, canfu'r tîm adolygu fod gan y Brifysgol drefniadau cydlynol ar gyfer sicrhau safonau academaidd sydd wedi eu sefydlu'n dda a'u halinio â'r disgwyliadau ar gyfer y sector, a bod y myfyrwyr yn gynwysedig yn y prosesau sicrhau ansawdd. Mae polisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol a'i threfnau llywodraethu'n darparu fframwaith cadarn ar gyfer sicrhau bod safonau academaidd trothwy'n cael eu bodloni mewn ffordd gyson, ac mae hyn yn cefnogi ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr a'i welliant parhaus.

# 6. Darpariaeth gydweithredol

## Gwybodaeth am faint a natur y ddarpariaeth gydweithredol (gan gynnwys darpariaeth dysgu seiliedig ar waith) ac unrhyw gynlluniau i'w newid

94 Mae gan y Brifysgol bum trefniant cydweithredol yn y DU sy'n ymwneud â darpariaeth ar fasnachfraint, Prentisiaethau Gradd a chonsortiwm, gan gynnwys gyda dau goleg addysg bellach, Coleg Cambria a Choleg Gŵyr Abertawe. Er bod y tîm adolygu wedi canfod tystiolaeth i ddangos bod y partneriaethau cyfredol yn gweithredu'n effeithiol ac yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir, roedd hi'n amlwg bod amcanion strategol y Brifysgol i ddatblygu ei phortffolio o bartneriaethau cydweithredol yn barhaus yn canolbwyntio ar dwf mewn marchnadoedd rhyngwladol. Mewn perthynas â darpariaeth ryngwladol, cadarnhaodd staff y Brifysgol mewn cyfarfodydd eu bod yn bwriadu symud i ddull sy'n fwy strategol a rhagweithiol nag ydoedd gynt. Clywodd y tîm adolygu mai'r bwriad yw adnewyddu'r Strategaeth Ryngwladoli a ddaeth i ben yn 2025, yn unol â strategaeth sefydliadol ddiwygiedig sydd i gael ei chyhoeddi ym mlwyddyn academaidd 2026-27. Mae gan y Brifysgol dargedau uchelgeisiol i gynyddu nifer ei myfyrwyr sy'n astudio ar gyrsiau addysg drawswladol o oddeutu 1,000 yn 2025-26 i 5,500 erbyn 2029-30, yn bennaf drwy ehangu ei gweithrediad â'i phartneriaethau cydweithredol cyfredol, yn hytrach na chynyddu nifer ei phartneriaid.

95 Mae cofrestr y Brifysgol o bartneriaid cydweithredol yn dangos bod ganddi ar hyn o bryd 26 o bartneriaethau cydweithredol ledled y byd, gan gynnwys yn y DU, sy'n cynnwys wyth sefydliad sy'n rhan o Bartneriaeth Strategol Texas. Mae ganddi hefyd bartneriaethau strategol gyda Phrifysgol Canberra, Prifysgol y Gwyddorau Cymhwysol München (Yr Almaen), Université Grenoble a Phrifysgol Wuhan. Mae'r trefniadau hyn yn ymestyn dros amrywiaeth o feysydd astudio megis peirianneg, busnes, meddygaeth a'r gwyddorau, ac amrywiaeth o fodelau partneriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglenni gradd ddeuol mewn peirianneg a'r gyfraith a gynigir mewn cydweithrediad â Phrifysgol Trent yng Nghanada, a Sefydliad Addysg ar y Cyd â Phrifysgol Dechnoleg Nanjing (Tsieina) sy'n cynnig rhaglenni yn y gwyddorau ac mewn peirianneg a thechnoleg. Mae hefyd gydweithrediad â Chanolfan Addysg Ryngwladol Uniciti (UIEH) ym Mauritius ym meysydd nyrsio a meddygaeth. Mae'r Brifysgol yn bwriadu datblygu'r berthynas ymhellach drwy sefydlu Ysgol Meddygaeth.

## Y datblygiadau a gafwyd yn y dulliau y mae'r darparwr yn eu defnyddio i reoli ansawdd a safonau

96 Nododd y tîm adolygu fod darpariaeth bartneriaeth wedi derbyn ystyriaeth yn rhan o'r newidiadau ehangach a wnaed i strwythur llywodraethu'r Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno swyddogaeth newydd y Dirprwy Is-Ganghellor Cynorthwyol (Materion Rhyngwladol) i bontio'r bwlch rhwng strategaeth a gweithrediad. Mae gan bob cyfadran Ddeon Cyswllt (Materion Rhyngwladol) sy'n arwain ymgysylltiad a blaenoriaethau rhyngwladol y gyfadran, yn cynnwys darpariaeth gydweithredol, ac mae'n cadeirio Pwyllgor Rhyngwladoli'r Gyfadran sy'n cymeradwyo darpariaeth addysg drawswladol newydd ac yn monitro perfformiad. Mae pob cyfadran yn goruchwylio ac yn rheoli ei chofrestr ei hun o risgiau, ochr yn ochr â chynlluniau i'w lleihau, gyda chyfranogaeth y gwasanaethau proffesiynol. Adolygir y dogfennau hyn yn rhan o'r broses flynyddol o adolygu partneriaethau. Mae'r Brifysgol yn parhau i gynnig llwybrau penodol i fyfyrwyr rhyngwladol drwy ei phartneriaeth SwanNGlobal Education ar Gampws y Bae. Roedd y tîm o'r farn bod diwygio'r strwythur llywodraethu yn weithred gadarnhaol, gan nodi ei bod wedi cyfrannu at gryfhau goruchwyliaeth, a chydnabod mai un o'r prif ffactorau sy'n cefnogi trefniadau llywodraethu a phenderfynu sefydliadol yw'r bartneriaeth effeithiol rhwng y cyfadrannau a'r gwasanaethau proffesiynol.

97 Nododd y tîm adolygu fod newidiadau wedi eu gwneud i drefnau rheoli ansawdd y Brifysgol sy'n cryfhau ac yn symleiddio'r ddarpariaeth. Mae Bwrdd Partneriaethau'r Brifysgol sydd newydd ei ffurfio ac sy'n adrodd i Bwyllgor Addysg y Brifysgol, yn ymwneud ag oes gyfan y bartneriaeth erbyn hyn, o lunio cysyniad cychwynnol a diwydrwydd dyladwy hyd adnewyddu neu derfynu, a'i nod yw sicrhau goruchwyliaeth gymesur wrth i'r portffolio gynyddu. Mae Grŵp Gweithredu Partneriaethau'n cydlynu'r cymorth academaidd a chymorth y gwasanaethau proffesiynol. Clywodd y tîm adolygu fod y grŵp hwn wrthi'n datblygu prosesau a dulliau newydd gyda chynlluniau gweithredol newydd a dulliau gweithredu a darparu ymarferol, a disgwylir iddyn nhw gael eu hymwreiddio mewn gweithredoedd pob dydd. I oruchwylio a rheoli partneriaethau cydweithredol, defnyddir dull sy'n seiliedig ar risgiau, y bwriedir iddo fod yn gymesur. Er enghraifft, clywodd y tîm adolygu fod partneriaethau sefydledig yn y DU sy'n gysylltiedig â risg isel yn gweithredu fwyfwy o dan broses 'Monitro Gwelliant Parhaus' y Brifysgol, yn gyffredin â'r ddarpariaeth a gyflenwir yn y Brifysgol, er bod cysylltiadau cydweithredu mwy newydd neu rai sydd â risg uwch yn cadw at broses adolygu flynyddol a chylchol hyd nes bydd y Brifysgol yn hyderus bod y systemau rheoli ansawdd wedi eu hymwreiddio'n llawn. Archwiliodd y tîm adolygu ddogfennau amrywiaeth o bartneriaethau cydweithredol a chanfu dystiolaeth i ddangos dull sefydledig, cadarn a chynhwysfawr o ddatblygu a chymeradwyo darpariaeth gydweithredol.

98 Hefyd, bu'r tîm adolygu'n ystyried dull y Brifysgol o adolygu ei darpariaeth gydweithredol yn flynyddol. Mae adolygiad blynyddol y Tîm Ymgysylltu Byd-eang yn rhoi sgôr risg ar sail trefnau llywodraethu, risgiau, dulliau darparu, adenillion ar fuddsoddiad, ac aliniad strategol. Gwelodd y tîm adolygu esiamplau o holiaduron ar-lein sy'n sail i'r sgôr risg hwn ac sydd â chwestiynau cyfatebol i'r tri grŵp a ganlyn o randdeiliaid: goruchwylwyr (ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, lle bo'n berthnasol), cyfarwyddwyr y rhaglenni a'r tiwtoriaid cyswllt (ar gyfer trefniadau addysgu cydweithredol), a rheolwyr partneriaeth (yn y Tîm Ymgysylltu Byd-eang). Mae'r tîm adolygu o'r farn bod y dull seiliedig ar risgiau'n darparu fframwaith cadarn ar gyfer blaenoriaethu gweithgareddau a sicrhau bod y meysydd sy'n peri'r risg fwyaf yn derbyn y sylw priodol a'r oruchwyliaeth briodol.

99 Canfu'r tîm adolygu fod y Brifysgol yn bwriadu symud i fodel mwy graddedig, safonedig a chyson ar gyfer partneriaethau cydweithredol. Ar y cam cymeradwyo, cynllunnir dulliau cefnogi, gyda threfniadau ychwanegol ar gyfer partneriaethau y mae'r Brifysgol yn gorff dyfarnu ar eu cyfer, yn cynnwys partneriaethau lle cynigir graddau a ddyfernir ar y cyd a graddau deuol. Adolygodd y tîm adolygu ddogfennaeth partneriaethau oedd yn cadarnhau bod Cyd-fyrddau Rheoli, Cyd-fyrddau Academaidd a Chyd-fyrddau Astudiaethau'n cael eu sefydlu rhwng y Brifysgol a'i phartneriaid cydweithredol, a bod y strwythurau hyn yn gweithredu'n effeithiol.

## Y defnydd a wneir o brosesau ansawdd i gadarnhau bod y darparwr yn parhau i reoli ei ddarpariaeth gydweithredol yn effeithiol

100 Canfu'r tîm adolygu fod Bwrdd Partneriaethau'r Brifysgol yn goruchwylio darpariaeth gydweithredol yn effeithiol, gan ddefnyddio gwybodaeth am y farchnad, data mewnol am berfformiad a dadansoddiad o'r sefyllfaoedd yn y gwledydd penodol ar gyfer cynigion am bartneriaethau rhyngwladol er mwyn blaenoriaethu meysydd astudio a sicrhau bod achosion busnes yn gadarn. Mae'r Bwrdd Rheoli Portffolio'n goruchwylio'r gwaith o ddatblygu ac adolygu'r portffolio yn y DU a thramor. Hefyd, mae'r Bwrdd Cymeradwyo a Gwella Portffolio'n chwarae rôl allweddol yn y broses o gymeradwyo partneriaethau cydweithredol, adolygu asesiadau risg a gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar gyfer y partneriaid/gwledydd, ac asesu a yw'r partner yn addas i ddarparu'r rhaglen benodol. Er bod y broses flynyddol o adolygu'r ddarpariaeth gydweithredol yn canolbwyntio ar ystyried materion llywodraethol a strategol, mae prosesau craidd y Brifysgol o sicrhau a gwella ansawdd yn ymwneud â darpariaeth y rhaglenni, deilliannau dysgu'r myfyrwyr a phrofiadau'r myfyrwyr, er mwyn sicrhau bod ei darpariaeth gydweithredol yn atebol i'r un trefniadau monitro a gwerthuso ag sy'n berthnasol i'r ddarpariaeth ar ei champysau ei hun. Roedd y tîm o'r farn bod gwahanu'r oruchwyliaeth dros faterion masnachol oddi wrth yr oruchwyliaeth dros faterion academaidd yn agwedd gadarnhaol, am ei fod yn hyrwyddo prosesau penderfynu

myfyrwyr-ganolog ac yn sicrhau bod profiadau a deiliannau dysgu'r myfyrwyr sy'n astudio gyda phartneriaid cydweithredol yn cael eu hystyried ochr yn ochr â rhai'r myfyrwyr sy'n astudio ar y campws, o dan fframwaith cyson ar gyfer gwella ansawdd.

101 Cadarnhaodd staff y Brifysgol a staff y partner cydweithredol fod y Cyd-fyrddau Rheoli a'r Cyd-fyrddau Academaidd yn sicrhau bod y ddwy ochr yn rhannu synnwyr o berchnogaeth. Swyddogaethau'r byrddau hyn yw canfod risgiau a'u lleihau ar gam cynnar yn y broses, sicrhau ymgysylltiad parhaus (megis ymweliadau blynyddol a chyfarfodydd rheolaidd) a sicrhau cydymffurfiad. Er mwyn sicrhau cysondeb, penodir yr un arholwyr allanol ar gyfer y ddarpariaeth gydweithredol ag a benodir ar gyfer y ddarpariaeth gyfatebol ar y campws, a chadarnhaodd staff y partneriaid cydweithredol bod adborth gan arholwyr allanol yn cael ei rannu â'r partneriaid cydweithredol a bod y tiwtor cyswllt perthnasol yn cydlynu eu hymateb. Ar y cam cymeradwyo cychwynnol, cynllunnir y ddarpariaeth cymorth i'r myfyrwyr ar y cyd â'r partner ac fe'i disgrifir yn fanwl yn y Llawlyfr Gweithredu/Rhannu Cyfrifoldebau. Mae'r tîm adolygu o'r farn bod y ddogfen hon yn fanwl ac yn rhoi disgrifiad clir o swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Brifysgol a'i phartner cydweithredol.

## Crynodeb sy'n dangos effeithiolrwydd y dull o reoli'r ddarpariaeth gydweithredol gan gynnwys y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academaidd a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr

102 Ar y cyfan, mae'r tîm adolygu'n hyderus bod gan y Brifysgol drefniadau cadarn ac effeithiol yn eu lle ar gyfer goruchwylio a monitro ei phartneriaethau cydweithredol. Gwiriodd a chadarnhaodd y tîm adolygu fod cytundeb cydweithio a lofnodwyd yn ei le ar gyfer pob partneriaeth yn y DU a thramor. Gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth gynhwysfawr i ddangos bod prosesau diwydrwydd dyladwy ar waith ar gyfer y trefniadau hyn. Mae prosesau 'Monitro Gwelliant Parhaus' wrthi'n cael eu cyflwyno ar gyfer partneriaethau cydweithredol sy'n gysylltiedig â risg isel. Mae pob partneriaeth newydd neu bob partneriaeth sy'n gysylltiedig â risg uchel yn atebol i gael ei hadolygu'n flynyddol ac i gael adolygiad o'i rhaglenni bob blwyddyn, yn ogystal â phroses gylchol o adolygu ansawdd sy'n gysylltiedig â phwyntiau adolygu cyfnodol. Canfu'r tîm adolygu dystiolaeth glir i gadarnhau bod Bwrdd Partneriaethau'r Brifysgol yn goruchwylio ei phartneriaethau, a bod y Tîm Ymgysylltu Byd-eang yn paratoi adroddiad blynyddol sy'n nodi iechyd pob un o'r partneriaethau ar sail sgôr risg.

**QAA3114 - R14836 – Gorffennaf 2026**

Cyhoeddwyd ar 23 Gorffennaf 2026

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2026
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

+44 (0)1452 557 000
[www.qaa.ac.uk](http://www.qaa.ac.uk)